**Gwobrau Myfyrwyr**

Dyfernir nifer o wobrau myfyrwyr bob blwyddyn. Y gwobrau sydd wedi'u sefydlu ar hyn o bryd yw:

<table>
<tr><th>Enw'r Wobr</th><th>Yn cael ei dyfarnu i:-</th><th>Gwobr:</th></tr>
<tr><td>Gwobr Cyfraniad Eithriadol Advance Brighter Futures</td><td>Mae'r wobr hon i'w dyfarnu i fyfyriwr blwyddyn olaf o un o'r rhaglenni cymwys a restrir isod:<ul><li>Diploma Addysg Uwch Iechyd a Lles Cymdeithasol (gan gynnwys Blwyddyn Sylfaen)</li><li>BSc (Anrh) Iechyd Meddwl a Lles (gan gynnwys Blwyddyn Sylfaen)</li></ul>Rhoddir y wobr i fyfyriwr sydd wedi gwneud cyfraniad eithriadol i faes lles/iechyd meddwl naill ai drwy wirfoddoli neu fenter. Mae'r ffactorau i'w hystyried yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:<ul><li>Mynd gam ymhellach yn eu rôl wirfoddol i ddarparu gwasanaeth o safon eithriadol sydd wedi gwella profiad buddiolwyr mewn maes iechyd meddwl neu les.</li><li>Gwneud cyfraniad sylweddol at fenter ddielw sydd â lles/iechyd meddwl yn rhan o'i chenhadaeth.</li></ul></td><td>Tystysgrif gwobr y Brifysgol<br><br>Taleb £50</td></tr>
<tr><td>Gwobr Alex Rouse</td><td>Hyd at ddau fyfyriwr blwyddyn olaf ar y rhaglen BSc (Anrh) Therapi Galwedigaethol (un o'r llwybr llawn amser ac un o'r llwybr rhan amser) sydd wedi dangos ymroddiad i'r proffesiwn a'i werthoedd a'i athroniaeth, wedi bod yn gefnogol i staff, myfyrwyr a chleifion/cleientiaid, wedi bod yn hwylusydd gwaith tîm rhagorol, gan adnabod nodweddion cadarnhaol pawb ac annog y defnydd ohonynt, yn reddfol, â diddordeb gofalgar gwirioneddol mewn pobl ac ymwybyddiaeth o'r defnydd priodol o hiwmor.</td><td>Tystysgrif gwobr y Brifysgol<br><br>Taleb £25</td></tr>
<tr><td>Gwobr Alpha Kappa Alpha</td><td>Cyflwynir y wobr Alpha Kappa Alpha i raddedig MPhil neu PhD o faes pwnc Rheolaeth, am yr effaith botensial y bydd ei thesis MPhil/PhD yn ei chael yn y gymuned (â gogwydd gweithredol a/neu ymchwil gymwysedig) ac yn seiliedig ar effaith botensial y thesis ar les eraill neu ar ei gyfraniadau cymwysedig.</td><td>Bydd y wobr yn cynnwys gwobr ariannol o £100, Tystysgrif gwobr y Brifysgol, a chyfle i fynychu seminar Ysgol Fusnes Gogledd Cymru, lle bydd gan yr enillydd slot o 20 munud i gyflwyno ei th/draethawd ymchwil MPhil/PhD.</td></tr>
<tr><td>Gwobr Alpha Omega Alpha</td><td>Cyflwynir y wobr Alpha Omega Alpha i raddedig MPhil neu PhD o faes pwnc Rheolaeth, am yr effaith ragorol y mae ei thesis MPhil neu PhD wedi ei chael ar y maes ymchwil perthnasol (ymchwil â gogwydd methodig a damcaniaethol).</td><td>Bydd y wobr yn cynnwys gwobr ariannol o £100, Tystysgrif gwobr y Brifysgol a chyfle i fynychu seminar Ysgol Fusnes Gogledd Cymru, lle bydd gan yr enillydd</td></tr>
</table>

| Enw'r Wobr | Yn cael ei dyfarnu i:- | Gwobr: |
|---|---|---|
| | | slot o 20 munud i gyflwyno ei th/draethawd ymchwil MPhil/PhD. |
| **Gwobr Ymdrech Myfyrwyr Astudiaethau Anifeiliaid** | Caiff y wobr ei dyfarnu'n flynyddol i hyd at dri o fyfyrwyr cymwys sy'n astudio ar y rhaglenni a restrir isod.<br>• BSc (Anrh) Ymddygiad, Llesiant a Chadwraeth Anifeiliaid (Atodol)<br>• BSc (Anrh) Ymddygiad, Llesiant a Chadwraeth Anifeiliaid (Yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen)<br>• BSc (Anrh) Gwyddor a Rheoli Lles Ceffylau (Yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen)<br>• BSc (Anrh) Gwyddor a Rheoli Lles Ceffylau<br>• FdSc Astudiaethau Anifeiliaid<br>• FdSc Ymddygiad, Llesiant a Chadwraeth Anifeiliaid Cymhwysol (Yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen)<br>• FdSc Nyrsio Milfeddygol<br>• FdSc Ymddygiad, Hyfforddiant a Pherfformiad Cŵn<br>• FdSc Rheoli Bywyd Gwyllt yn Ymarferol<br><br>Caiff y wobr ei dyfarnu i fyfyrwyr sydd wedi dangos cyfraniad eithriadol i brofiad dysgu myfyrwyr eraill, neu ymdrech eithriadol wrth oresgyn anawsterau personol i gyflawni eu cymhwyster. | Tystysgrif gwobr y Brifysgol<br><br>Taleb £25 |
| **Gwobr Prosiect Terfynol Celf a Dylunio** | Dyfarnir y wobr yn flynyddol i fyfyriwr lefel 6 (BA (Anrh) sydd wedi'i enwebu ac wedi ymrestru ar un o'r rhaglenni astudio canlynol;<br><br>• BA (Anrh) Celf Gain (a Blwyddyn Sylfaen)<br>• BA (Anrh) Dylunio: Ffilm a Ffotograffiaeth<br>• BA (Anrh) Comics (a Blwyddyn Sylfaen)<br>• BA (Anrh) Darlunio (a Blwyddyn Sylfaen)<br>• BA (Anrhydedd) Celfyddydau Cymhwysol (a Blwyddyn Sylfaen)<br>• BA (Anrhydedd) Animeiddio (a Blwyddyn Sylfaen)<br>• BA (Anrh) Ffotograffiaeth a Ffilm (a Blwyddyn Sylfaen)<br>• BA (Anrh) Dylunio Graffig (a Blwyddyn Sylfaen)<br>• BA (Anrh) Dylunio Cynnyrch<br><br>Neu unrhyw deitlau cwrs blaenorol sy'n ymwneud â'r meysydd hyn.<br><br>Dyfernir y wobr yn defnyddio meini prawf nad ydynt yn seiliedig ar farciau; bydd yn seiliedig ar ansawdd a gwreiddioldeb prosiect blwyddyn olaf y myfyriwr mewn unrhyw un o'r disgyblaethau o fewn Celf a Dylunio. Dewisir yn seiliedig ar ansawdd a gwreiddioldeb eu prosiect blwyddyn olaf o'i gymharu â'u cyfoedion ar y cwrs. | Taleb £100 i'w gwario yn Siop Gelf y Brifysgol a Tystysgrif gwobr y Brifysgol |
| **Gwobr Goffa Blodwen a Christmas Evans** | Y myfyriwr blwyddyn olaf sydd wedi cyflawni'r perfformiad uchaf o blith yr holl fyfyrwyr israddedig sy'n graddio o fewn y flwyddyn honno o raglenni sydd â chysylltiad agos â cherddoriaeth, fel y nodir isod:<br>• BA (Anrh) Cynhyrchiad Cyfryngau<br>• BA (Anrh) Cynhyrchiad Cyfryngau<br>• (yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen)<br>• BSc (Anrh) Technoleg Cerddoriaeth a Sain | Siec gwobr gwerth £100 a Tystysgrif gwobr y Brifysgol |

| Enw’r Wobr | Yn cael ei dyfarnu i:- | Gwobr: |
|---|---|---|
| | • BSc (Anrh) Technoleg Cerddoriaeth a Sain (yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen) | |
| **Gwobr Cymdeithas Seicoleg Prydain i Fyfyriwr Israddedig Blwyddyn Olaf am Gyrhaeddiad Cyffredinol** | Dyfernir y wobr yma i fyfyriwr israddedig sy’n graddio ar y rhaglen BSc (Anrh) Seicoleg (yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen) sydd wedi cyflawni perfformiad cyffredinol gorau'r garfan ar gyfer y flwyddyn honno. | Llythyr o longyfarch wedi ei arwyddo gan Sarb Bajwa; Prif Swyddog Gweithredol<br><br>Tocyn rhodd £30<br><br>1 mlynedd o aelodaeth raddedig am ddim i'r gymdeithas |
| **Y Wobr Geltaidd i Fyfyrwyr Addysg** | Dyfarnir y wobr i'r myfyriwr israddedig neu ôl-raddedig sy'n astudio rhaglen Addysg fel y rhestrir isod sydd wedi arddangos y perfformiad gorau o ran arfer broffesiynol ymhlith yr holl fyfyrwyr sy'n graddio ym mhob blwyddyn.<br><br>• Tystysgrif Addysg (AHO)<br>• Tystysgrif Addysg i Raddedigion (AHO)<br>• Tystysgrif Broffesiynol mewn Addysg i Raddedigion (ACO)<br>• BA (Anrh) Astudiaethau Addysg<br>• BA (Anrh) Astudiaethau Plentyndod Cynnar<br>• BA (Anrh) Gweithio Gyda Phlant A Theuluoedd (yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen)<br>• BA (Anrh) Addysg (yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen)<br>• MA Addysg<br>• MA Addysg (Dysgu ac Addysgu)<br>• MA Addysg (Arwain)<br>• MA Addysg (Sgiliau Cwnsela ar gyfer Addysg)<br>• MA Addysg (ADY-Dyslecsia)<br>• Addysg MA Cenedlaethol (Cymru) | Siec gwobr gwerth £50 a Tystysgrif gwobr y Brifysgol |
| **Gwobr Cyflawniad Academaidd Lefel 6 Astudiaethau Teuluoedd a Phlentyndod** | Dyfarnir y wobr hon i’r myfyriwr sy’n graddio gyda’r marciau cyffredinol uchaf o unrhyw un o’r rhaglenni a restrir isod:<br><br>• BA (Anrh) Gweithio Gyda Phlant A Theuluoedd (yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen)<br>• BA (Anrh) Addysg (yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen) | Tystysgrif gwobr y Brifysgol<br><br>Taleb £25 |
| **Gwobr Chris Watson** | Mae’r wobr hon i’w dyfarnu i fyfyriwr blwyddyn olaf (Lefel 6) ar y rhaglen BSc (Anrh) Ffisiotherapi gan ystyried ffactorau fel:<br><br>• Ymrwymiad i'r proffesiwn, gan ddefnyddio'r sylfaen dystiolaeth i danategu ymarfer.<br>• Arddangos meddylfryd arloesol, creadigol a chwilfrydig.<br>• Cefnogol iawn i staff, myfyrwyr a chleifion/cleientiaid.<br>• Hwylusydd ardderchog o waith tîm.<br>• Gwrandäwr rhagorol, yn cydnabod nodweddion cadarnhaol pawb. | Bydd y wobr yn cynnwys taleb llyfr gwerth £20 a thystysgrif gwobr y Brifysgol. |

| Enw’r Wobr | Yn cael ei dyfarnu i:- | Gwobr: |
|---|---|---|
| | • Darparu arweiniad ardderchog i eraill, yn reddfol a gyda diddordeb gofalgar gwirioneddol mewn pobl. | |
| **Gwobr Colin Jackson am Ragoriaeth mewn Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff** | Dyfarnir y wobr yn flynyddol i fyfyriwr blwyddyn olaf (Lefel 6 neu 7) ar y rhaglenni cymwys isod:<br><br>• BSc (Anrh) Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff (yn cynnwys gyda Blwyddyn Sylfaen)<br>• BSc (Anrh) Gwyddorau Chwaraeon ac Ymarfer Corff Cymhwysol<br>• MSc Gwyddorau Chwaraeon ac Ymarfer Corff (Gwyddor Ymarfer Corff Clinigol)<br>• MSc Gwyddorau Chwaraeon ac Ymarfer Corff (Gwyddor Perfformiad Chwaraeon)<br><br>Dyfarnir y wobr i fyfyriwr sydd wedi cael effaith gadarnhaol fesuradwy drwy wirfoddoli i gefnogi timau rhaglenni a chleientiaid allanol yng Nghanolfan Perfformiad Wrecsam (gwasanaeth ymgynghori a gynigir gan y Brifysgol) gyda mathau gwahanol o brofi iechyd a ffitrwydd. Mae ffactorau i’w hystyried yn cynnwys:<br><br>• Amledd y gwirfoddoli - myfyrwyr sy’n gwirfoddoli’n gyson er mwyn helpu i gefnogi ystod eang o gleientiaid fel clybiau, timau, athletwyr ac unigolion<br>• Medrus wrth gynnal profion gwahanol - rhoi theori ar waith i ennill profiad go iawn o’r wybodaeth a ddysgwyd ar eu cwrs.<br>• Y gallu i feithrin cysylltiadau a pherthnasoedd gyda chleientiaid - unigolyn sy’n mwynhau bod â phobl gyda’r gallu i gyfathrebu’n glir, gan roi sicrwydd iddyn nhw ac ati. | Y wobr fydd taleb gwerth £50 a thystysgrif gwobr y Brifysgol. |
| **Gwobr Claire Carlin-Fowler** | Dyfernir y wobr yn flynyddol i fyfyriwr lefel 5 neu 6 sydd wedi cael ei enwebu, wedi cwblhau Cyfle Dysgu Ymarfer lefel 5 ac wedi ymrestru ar raglen astudio BA (Anrh) Gwaith Cymdeithasol.<br><br>Dyfernir y wobr yn defnyddio meini prawf nad ydynt yn seiliedig ar farciau; yn seiliedig ar fyfyriwr sydd, fel Claire, wedi dangos ymrwymiad arbennig i ymarfer gwaith cymdeithasol tra ar ei gyfleoedd dysgu ymarfer lefelau 5 a/neu 6, ac wedi goresgyn trallod personol er mwyn parhau ar y rhaglen, gan ddangos dewrder ac agwedd benderfynol. | Bydd y wobr yn cynnwys talebau llyfrau gwerth £30-a Tystysgrif gwobr y Brifysgol |
| **Gwobr Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol am Ddinasyddiaeth Gadarnhaol a Chyflawniad Academaidd** | I fod yn gymwys ar gyfer y dyfarniad, mae'n rhaid i'r myfyriwr fod wedi llwyddo a symud ymlaen yn ei flwyddyn astudio briodol ar y rhaglen Gradd BA (Anrh) Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol h.y. gellir rhoi'r dyfarniad hwn i fyfyriwr mewn unrhyw flwyddyn astudio ar draws lefelau 4-6.<br><br>Mae'r wobr yn cydnabod ymroddiad myfyrwyr, ymrwymiad dinesig, agwedd gadarnhaol a chyflawniadau academaidd a bydd yn cael ei dyfarnu i un myfyriwr sy'n dangos y rhinweddau hyn yn fwyaf llwyddiannus. Gallai dangosyddion hyn gynnwys:<br><br>• Gweithredu fel cynrychiolydd Myfyrwyr a/neu Hyrwyddwr Ymgysylltiad Myfyrwyr.<br><br>•Ymgysylltu â neu weithredu fel aelod o'r Gymdeithas Drosedddeg. | Gwobr ariannol o £100 a thystysgrif gwobr y Brifysgol. |

| Enw’r Wobr | Yn cael ei dyfarnu i:- | Gwobr: |
|---|---|---|
| | •Ymroddiad ac ymrwymiad mewn dosbarthiadau (agwedd/personoliaeth gadarnhaol).<br><br>• Gwirfoddoli ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau myfyrwyr, e.e. diwrnodau agored, nosweithiau ymgeiswyr, cynadleddau, digwyddiadau adrannol, cyfweliadau staff ac ati.<br><br>• Cymryd rhan gadarnhaol a gweithredol mewn gwaith grŵp.<br><br>• Bod yn ddylanwad cadarnhaol ar eraill.<br><br>• Bod yn aelod gwerthfawr o dîm (cefnogol/cymwynasgar/chwaraewr tîm).<br><br>• Bod â photensial ar gyfer arweinyddiaeth.<br><br>•Gwella ymrwymiad y brifysgol i'r genhadaeth ddinesig trwy gefnogi a/neu weithio'n agos gyda'r gymuned ehangach i godi proffil y rhaglen a'r brifysgol ehangach.<br><br>• Ysbrydoli myfyrwyr eraill, felly, gwella'r profiad dysgu. | |
| **Gwobr Cyril Oswold Jones** | I fod yn gymwys am y wobr, mae’n rhaid i’r myfyriwr fod wedi ennill y marc cyfan gwbl uchaf lefel 6 ar y rhaglenni cymwys isod:<br>• LLB (Anrh) Y gyfraith<br><br>Pan fydd mwy nag un myfyriwr yn cyflawni’r un marc cyfan gwbl uchaf ar y rhaglen gymwys, dyfarnir y wobr i’r myfyriwr gyda’r marc Traethawd Hir uchaf yn y modiwl LAW602 - Traethawd Hir y Gyfraith. | Gwobr ariannol o £1,000 a thystysgrif gwobr y Brifysgol |
| **Gwobr Goffa Dora Roylance** | Cynigir Gwobr Dora Roylance i’r myfyriwr sy’n perfformio orau ar y rhaglen Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (Ymwelydd Iechyd) ym mhob prifysgol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. | Gwobr ariannol o £100 a thystysgrif gwobr y Brifysgol |
| **Gwobr Llyfr Doris Irene Hill** | Myfyriwr yn ei flwyddyn olaf ond un ym maes pwnc academaidd Addysg ac Astudiaethau Plentyndod a Theulu o un o'r rhaglenni a restrir isod, sy'n dangos ymrwymiad i ddysgu gydol oes a gwelliant personol parhaus<br><br>• BA (Anrh) Addysg (yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen)<br>• BA (Anrh) Astudiaethau Plentyndod Cynnar | Tocyn llyfr gwerth £30 a thystysgrif gwobr y Brifysgol |
| **Gwobr Ede a Ravenscroft** | Dyfernir y wobr i fyfyriwr yn cwblhau ei flwyddyn gyntaf o astudiaeth (lefel 4) o unrhyw Radd Baglor a gafodd ar gyfartaledd y marciau uchaf ar gyfer ei ddyfarniad. Mae’r wobr ar gael i fyfyriwr Gradd Baglor Lefel 4 o bob maes pwnc. | Arian gwobr gwerth £1,000 a thystysgrif gwobr Prifysgol. |
| **Gwobr Emmett Roberts** | Dyfernir y wobr yma i’r myfyriwr BA (Anrh) Gwaith Cymdeithasol sy’n graddio, sydd wedi dangos ymroddiad rhagorol i gyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn ystod ei gyfnod o astudio yn y brifysgol. | Swm y wobr i'w bennu bob blwyddyn - £30 mewn talebau llyfrau a thystysgrif gwobr y Brifysgol |
| **Gwobr Arweinydd Pêl-droed y Dyfodol** | Dyfarnir y wobr yn flynyddol i fyfyriwr blwyddyn olaf (Lefel 6 neu 7) ar y rhaglenni cymwys isod:<br>• BA (Anrh) Pêl-droed a Datblygu Cymunedol (Atodol)<br>• BSc (Anrh) Arbenigwr Perfformiad a Hyfforddi Pêl-droed | Y wobr fydd taleb gwerth £50 a thystysgrif |

| Enw’r Wobr | Yn cael ei dyfarnu i:- | Gwobr: |
|---|---|---|
| | • BSc (Anrh) Arbenigwr Perfformiad a Hyfforddi Pêl-droed (gyda Blwyddyn Sylfaen)<br>• MSc Gwyddor Pêl-droed a Hyfforddi<br>• MSc Gwyddor Pêl-droed a Hyfforddi (Dwys)<br><br>Dyfarnir y wobr hon i fyfyriwr sy’n:<br>• Canfod a gwirfoddoli i gyfleoedd ychwanegol - er enghraifft ymgymryd â phrofi ffitrwydd cyn y tymor gyda chlybiau, dadansoddi gemau, sylwebu ar gemau, cymryd rhan weithredol mewn gwaith cymunedol i rymuso pobl drwy bêl-droed ac ati.<br>• Chwilio am eu lleoliad personol a/neu gyflawni adroddiad lleoliad sy’n adlewyrchol o werth sylweddol y profiad y maent wedi ei ennill drwy’r lleoliad.<br>• Dangos ymrwymiad i ragoriaeth yn y cymwysterau hyfforddi ychwanegol a gyflawnwyd ar y rhaglen. | gwobr y Brifysgol. |
| **Gwobr Goffa Helen Hughes** | Dyfernir yn flynyddol i'r myfyriwr Lefel 7 sydd wedi cyflawni'r perfformiad uchaf ymhlith yr holl fyfyrwyr sy'n graddio o'r rhaglen MSc Gwyddor Fiofeddygol. | £50 a thystysgrif gwobr Prifysgol. |
| **Gwobr y Diwydiant ar gyfer Rhagoriaeth mewn Gemau** | Dyfernir i’r myfyriwr blwyddyn olaf sy’n graddio gyda’r marciau cyffredinol uchaf o:<br>• BSc (Anrh) Datblygu Gêm Gyfrifiadur (yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen)<br>• BSc (Anrh) Datblygu Gêm Gyfrifiadur (gyda Lleoliad Diwydiannol)<br>• BSc (Anrh) Datblygu Gêm Gyfrifiadur a Menter (yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen)<br>• BSc (Anrh) Datblygu Gêm Gyfrifiadur a Menter (gyda Lleoliad Diwydiannol)<br>• BA (Anrh) Celf Gemau (Yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen)<br>• BA (Anrh) Celf Gemau (gyda lleoliad diwydiannol) | A thystysgrif gwobr Prifysgol<br><br>Taleb £25 |
| **Gwobr y Diwydiant am Reoli Tîm ac Arloesedd mewn Gemau** | Dyfernir i dîm o fyfyriwr/fyfyrwyr y flwyddyn olaf sy'n graddio ar y rhaglen<br>• BSc (Anrh) Datblygu Gêm Gyfrifiadur (yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen)<br>• BSc (Anrh) Datblygu Gêm Gyfrifiadur (gyda Lleoliad Diwydiannol)<br>• BSc (Anrh) Datblygu Gêm Gyfrifiadur a Menter (yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen)<br>• BSc (Anrh) Datblygu Gêm Gyfrifiadur a Menter (gyda Lleoliad Diwydiannol)<br>• BA (Anrh) Celf Gemau (Yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen)<br>• BA (Anrh) Celf Gemau (gyda lleoliad diwydiannol)<br><br>Caiff y tîm a’i aelodau cymwys eu diffinio a’u cytuno yn ôl y ddogfen cynnig prosiect tîm a gyflwynwyd.<br><br>Er mwyn bod yn gymwys i gael y wobr, mae rhaid i bob aelod o’r tîm fodloni’r gofyniad am o leiaf 400 o oriau gwaith fel y nodir ym meini prawf yr asesiad prosiect tîm.<br><br>Dyfernir y wobr hon i’r tîm myfyrwyr blwyddyn olaf sy’n dangos y lefel gyffredinol uchaf o reoli prosiect ac arloesedd ym marn y panel o feirniaid gwobr (sef tîm y rhaglen ac arbenigwyr diwydiant). Mae tair rhan i’r meini prawf beirniadu: | Thystysgrif gwobr Prifysgol<br><br>Taleb £25 |

| Enw'r Wobr | Yn cael ei dyfarnu i:- | Gwobr: |
|---|---|---|
| | **1)** Graddau Myfyrwyr Unigol:<br><br>Bydd y panel yn ystyried graddau cyffredinol prosiect unigol pob aelod o'r tîm fel y gwelwyd ar draws y 5 elfen o'r meini prawf asesu prosiectau. Caiff graddau eu pennu gan ddata perfformiad JIRA unigolion a thimau, perfformiad pob aelod o'r tîm yn yr arddangosfa flynyddol ac ansawdd yr holl ddogfennau cynllunio, dadansoddi a rheoli ategol.<br><br>**2)** Arloesedd cynnyrch:<br><br>Bydd y panel yn ystyried ansawdd arloesol y cymhwysiad gêm terfynol a gyflwynwyd gan y tîm o ran mecanwaith y chwarae, cyflwyniad dull-celf, naratif a nodweddion dylunio.<br><br>**3)** Rheolaeth a Chynhyrchiant:<br><br>Bydd y panel yn ystyried ansawdd data cynhyrchu a chynhyrchiant y tîm. I fod yn gymwys am, y wobr, rhaid i holl aelodau'r tîm ddangos ansawdd ac ymlyniad i fethodoleg SGRYM drwy ddata gwib a *burndown* cywir a chyson ac mae'n rhaid i'r oriau a gofnodwyd, ddod â thystiolaeth ategol briodol. | |
| **Gwobr Israddedig Blwyddyn Olaf y Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg (IET)** | I'r myfyriwr blwyddyn olaf (lefel 5 neu 6) sy'n dangos cyrhaeddiad a gwelliant rhagorol trwy gydol ei astudiaethau neu'r prosiect blwyddyn olaf mwyaf rhyngweithiol a gwreiddiol. Bydd y wobr ar gael i fyfyrwyr sydd wedi cofrestru ar un o'r rhaglenni gradd Anrhydedd Peirianneg Drydanol neu Electronig wedi'u hachredu gan IET fel y nodir isod:<br>• BEng (Anrh) mewn Peirianneg Drydanol ac Electronig (yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen)<br>• BEng (Anrh) mewn Peirianneg Awyrennol a Mecanyddol (yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen)<br>• BEng (Anrh) Peirianneg Fodurol (yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen)<br>• BEng (Anrh) Peirianneg Adnewyddadwy a Chynaliadwy (yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen)<br>• BEng (Anrh) Peirianneg Ddiwydiannol (Gradd Atodol)*<br>• FdEng Peirianneg Ddiwydiannol<br>*Mae'r rhaglen hon yn gymwys ar gyfer myfyrwyr sy'n gallu dangos dilyniant o raglen Beirianneg arall e.e. Fd Eng Peirianneg Ddiwydiannol. Ni fyddai myfyrwyr mynediad uniongyrchol i lefel 6 yn gymwys, gan na fyddent yn cwrdd â'r meini prawf. | Aelodaeth raddedig 2 flynedd am ddim o IET, a thystysgrif gwobr Prifysgol. |
| **Gwobr Prosiect Israddedig Sefydliad y Peirianwyr Mecanyddol (IMechE)** | Dyfernir i fyfyriwr blwyddyn olaf (lefel 5 neu 6) sydd wedi cwblhau prosiect blwyddyn olaf sy'n dangos y gwreiddioldeb a'r arloesi mwyaf. Rhaid i fyfyrwyr cymwys fod wedi ymrestru ar un o'r rhaglenni gradd wedi'u hachredu gan IMechE:<br>• FdEng Peirianneg Ddiwydiannol (Mecanyddol)<br>• BEng (Anrh) Llwybrau Peirianneg Ddiwydiannol (Atodol) 'Mecanyddol' a 'Gweithgynhyrchu a Chynhyrchu' yn unig.<br>• BEng (Anrh) Peirianneg Awyrenegol<br>• BEng (Anrh) Peirianneg Fodurol<br>• BEng (Anrh) Peirianneg Gynaliadwy ac Adnewyddadwy<br>• BEng (Anrh) Peirianneg Awyrenegol (gyda Lleoliad Gwaith yn y Diwydiant) | Siec am £100 Amazon a thystysgrif gwobr Prifysgol |

| Enw'r Wobr | Yn cael ei dyfarnu i:- | Gwobr: |
|---|---|---|
| | • BEng (Anrh) Peirianneg Fodurol (gyda Lleoliad Gwaith yn y Diwydiant)<br>• BEng (Anrh) Peirianneg Gynaliadwy ac Adnewyddadwy (gyda Lleoliad Gwaith yn y Diwydiant)<br>• BEng (Anrh) Peirianneg Gynhyrchu (Prentisiaeth Radd)<br>• BEng (Anrh) Dylunio Peirianneg Ddiwydiannol (Mecanyddol) (Prentisiaeth Radd) | |
| **Gwobr Jan Jenkins** | Dyfarnir i fyfyriwr sy'n arddangos rhagoriaeth glinigol yn y maes dysffagia, gan ddangos gwybodaeth gadarn, sgiliau ymarferol a chymhwysedd mewn asesu a rheoli, ac yn cymhwyso tystiolaeth a theori o'r ystafell ddosbarth i lywio a gwella ei arfer clinigol, p'un ai ar leoliad neu mewn lleoliadau efelychu.<br><br>Dyfarnir y wobr hon i fyfyriwr Lefel 4, 5 neu 6 ar un o'r rhaglenni cymwys a restrir isod:<br><br>• BSc (Anrh) Therapi Iaith a Lleferydd | Tystysgrif gwobr y Brifysgol.<br><br>Taleb £25. |
| **Ysgoloriaeth John Arbuthnott** | Dyfernir i fyfyriwr blwyddyn olaf ar unrhyw un o'r rhaglenni a restrir isod y bernir iddo fod wedi dangos cyrhaeddiad a gwelliant academaidd rhagorol trwy gydol ei astudiaethau.<br>• BEng (Anrh) Peirianneg Awyrenegol a Mecanyddol (a Blwyddyn Sylfaen)<br>• BEng (Anrh) Peirianneg Drydanol ac Electronig (a Blwyddyn Sylfaen ac yn cynnwys Lleoliad Diwydiannol)<br>• BEng (Anrh) Peirianneg Fodurol (a Blwyddyn Sylfaen ac yn cynnwys Lleoliad Diwydiannol)<br>• BEng (Anrh) Peirianneg Adnewyddadwy a Chynaliadwy (a Blwyddyn Sylfaen ac yn cynnwys Lleoliad Diwydiannol)<br>• BEng (Anrh) Dylunio Peirianneg Ddiwydiannol (Mecanyddol) (Prentisiaeth Gradd)<br>• BEng (Anrh) Dylunio Peirianneg Ddiwydiannol (Trydanol ac Electronig) (Prentisiaeth Gradd)<br>• BEng Ynni Carbon Isel, Effeithlonrwydd a Chynaliadwyedd (Prentisiaeth Gradd)<br>• BEng (Anrh) Peirianneg Cynhyrchu (Prentisiaeth Gradd) | Gwobr o £100 - y swm i'w bennu bob blwyddyn yn seiliedig ar y llog a gafwyd ar rodd y wobr wreiddiol a thystysgrif a thystysgrif gwobr Prifysgol |
| **Gwobr Goffa Julia King** | Dyfernir y wobr hon i fyfyriwr sydd wedi dangos cymeriad eithriadol ac wedi goresgyn adfyd i gwblhau ei astudiaethau.<br><br>Y ffactorau a fydd yn cael eu hystyried yw:<br><br>**a.** Arddangos gallu i oresgyn heriau sy'n wahanol eu natur neu'n fwy o ran maint na'r rhai a wynebir yn gyffredin gan fyfyrwyr (er enghraifft, gall y rhain fod yn gysylltiedig â nodweddion personol, amgylchiadau teuluol, neu ddigwyddiadau eithriadol);<br>**b.** Ysbrydoli myfyrwyr eraill er mwyn gwella eu profiad dysgu (er enghraifft fel arweinydd, model rôl, neu ffrind cefnogol);<br>**c.** Ymgysylltu'n weithredol â staff i ysgogi gwelliannau yn y rhaglen a phrofiad dysgu myfyrwyr (i raddau mwy na'r hyn a ddisgwylir fel arfer, a thrwy lwybrau ffurfiol neu anffurfiol) | Tystysgrif gwobr y Brifysgol.<br><br>Taleb £25 |

| Enw'r Wobr | Yn cael ei dyfarnu i:- | Gwobr: |
|---|---|---|
| **Gwobr yr Arglwydd Jones i Fyfyrwyr Ymchwil Uwchraddedig** | Dyfernir i'r myfyriwr ymchwil uwchraddedig sydd wedi cyflawni'r perfformiad cyffredinol gorau o blith yr holl fyfyrwyr ymchwil sy'n graddio yn y flwyddyn. | Siec - y swm i'w bennu bob blwyddyn a heb fod yn fwy na £50<br><br>Tystysgrif gwobr y Brifysgol. |
| **Gwobr Gradd Baglor Cymdeithas Sŵoleg Genedlaethol Cymru** | Dyfarnir y wobr hon i'r myfyriwr sy'n graddio gyda'r marciau cyffredinol uchaf ar un o'r rhaglenni isod:<br>• BSc (Anrh) Ymddygiad, Llesiant a Chadwraeth Anifeiliaid (Atodol)<br>• BSc (Anrh) Gwyddor Ymddygiad, Llesiant a Chadwraeth Anifeiliaid (yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen)<br>• BSc (Anrh) Gwyddor a Rheoli Lles Ceffylau (yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen) | Tystysgrif gwobr y Brifysgol.<br><br>Aelodaeth flynyddol i'r Gymdeithas Sŵolegol. |
| **Gwobr Gradd Sylfaen Cymdeithas Sŵolegol Genedlaethol Cymru** | Dyfarnir y wobr hon i'r myfyriwr sy'n graddio gyda'r marciau cyffredinol uchaf ar un o'r rhaglenni isod:<br>• FdSc Astudiaethau Anifeiliaid<br>• FdSc Ymddygiad, Llesiant a Chadwraeth Anifeiliaid Cymhwysol (yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen)<br>• FdSc Nyrsio Milfeddygol<br>• FdSc Ymddygiad, Hyfforddiant a Pherfformiad Cŵn<br>• FdSc Rheoli Bywyd Gwyllt yn Ymarferol | Tystysgrif gwobr y Brifysgol.<br><br>Aelodaeth flynyddol i'r Gymdeithas Sŵolegol |
| **Gwobr Ymchwil Therapi Galwedigaethol** | Dyfernir y wobr yn flynyddol i fyfyriwr lefel 6 enwebedig ac sydd wedi cofrestru ar BSc (Anrh) Therapi Galwedigaethol gyda'r marciau uchaf cyffredinol yn y modiwl blwyddyn derfynol Ymchwil blwyddyn olaf AHP601 Ymchwil ar gyfer Ymarfer. | Tystysgrif gwobr y Brifysgol<br><br>Taleb £25 |
| **Gwobr Outside In** | Dyfernir y wobr yn flynyddol i fyfyriwr lefel 4-6 sydd wedi cael ei enwebu ac wedi ymrestru ar raglen astudio BA (Anrh) Gwaith Cymdeithasol.<br><br>Ymhlith y ffactorau y dylid eu hystyried wrth enwebu unigolyn mae ymrwymiad i waith Outside In o fewn y rhaglen BA Gwaith Cymdeithasol, a ddangosir drwy:<br>• fynychu cyfarfodydd<br>• cymryd rhan mewn prosiectau arbennig<br>• parodrwydd i helpu mewn gweithgareddau dosbarth (e.e. ymwybyddiaeth o anghenion hygyrchedd unigolion)<br>• rhoi gwerthoedd o barch a chynhwysiant ar waith | Talebau llyfrau gwerth £30<br>Tystysgrif gwobr y Brifysgol |
| **Gwobr Cymdeithas Owain Glyndŵr** | Dyfernir y wobr hon i gyn-fyfyriwr cymwys sydd wedi gwneud cyfaniad arbennig i unrhyw un o'r meysydd canlynol:<br>• hyrwyddo dysg ac addysg<br>• hyrwyddo dysg ac addysg drwy gyfrwng y Gymraeg<br>• hyrwyddo Cymru<br>• gwella cysylltiadau rhyngwladol<br>• menter ac arloesedd | Tystysgrif gwobr y Brifysgol |

| Enw'r Wobr | Yn cael ei dyfarnu i:- | Gwobr: |
|---|---|---|
| **Gwobr Goffa Peter Excell am Arloesedd mewn Prosiect** | Dyfernir y wobr yn flynyddol i fyfyriwr lefel 6 sydd wedi cael ei enwebu ac wedi ymrestru ar un o'r rhaglenni astudio canlynol;<br>• BSc (Anrh) Datblygu Gêm Cyfrifiadur (yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen)<br>• BSc (Anrh) Cyfrifiadura (gyda Lleoliad Diwydiannol)<br>• BSc (Anrh) Cyfrifiadura [Prentisiaeth Gradd] (yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen)<br>• BSc (Anrh) Cyfrifiadura (Atodol)<br>• BSc (Anrh) Cyfrifiadureg (yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen)<br>• BSc (Anrh) Cyfrifiadureg (gyda Lleoliad Diwydiannol)<br>• BSc (Anrh) Cyfrifiadureg (Atodol)<br>• BSc (Anrh) Rhwydweithiau a Diogelwch Cyfrifiaduron (yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen)<br>• BSc (Anrh) Rhwydweithiau a Diogelwch Cyfrifiaduron (gyda Lleoliad Diwydiannol)<br>• BSc (Anrh) Seiberddiogelwch (yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen)<br>• BSc (Anrh) Seiberddiogelwch (gyda Lleoliad Diwydiannol)<br>• BSc (Anrh) Seiberddiogelwch [Prentisiaeth Gradd] (yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen)<br>• BSc (Anrh) Seiberddiogelwch<br><br>Ymhlith y ffactorau y dylid eu hystyried wrth enwebu unigolyn mae'r gwaith mwyaf gwreiddiol, barn annibynnol ac arloesedd yn eu prosiect blwyddyn olaf lefel 6. | Taleb Amazon £50<br>Tystysgrif gwobr y Brifysgol. |
| **Gwobr y Llawlyfr Strategaethau** | Dyfarnir y wobr yn flynyddol i fyfyriwr blwyddyn olaf (Lefel 5 neu 6) ar y rhaglenni cymwys isod:<br>• BSc (Anrh) Chwaraeon, Hyfforddi a Ffitrwydd (Atodol)<br>• FdSc Chwaraeon, Hyfforddi a Ffitrwydd<br><br>Dylai ffactorau i'w hystyried wrth enwebu myfyriwr i ennill y wobr hon gynnwys:<br>• Arddangos rhagoriaeth mewn galluoedd hyfforddi chwaraeon<br>• Dangos ymrwymiad i'r maes hyfforddi drwy gymryd rhan weithredol mewn DPP<br>• Gweithredu fel Cynrychiolydd Myfyrwyr a/neu Hyrwyddwr ACF<br>• Gwirfoddoli i amrywiaeth o weithgareddau myfyrwyr (e.e. diwrnodau agored, nosweithiau i ymgeiswyr, cyfweliadau staff)<br>• Dangos ymrwymiad a diddordeb mewn dosbarthiadau (agwedd a phersonoliaeth)<br>• Cymryd rhan gadarnhaol a gweithredol mewn gwaith grŵp<br>• Dylanwadu'n gadarnhaol ar eraill<br>• Cymryd rhan mewn mentora cyfoedion • Bod yn aelod tîm gwerthfawr (cefnogol, cymwynasgar, aelod tîm)<br>• Arddangos potensial i arwain<br>• Ysbrydoli cyd-fyfyrwyr, ac o ganlyniad gwella eu profiad dysgu | Y wobr fydd taleb gwerth £50 a thystysgrif gwobr y Brifysgol. |
| **Gwobr Goffa Sylvia Crowe i Fyfyrwyr Nyrsio Cyn Cofrestru** | Bydd y wobr yn cael ei dyfarnu i un myfyriwr (lefel 6) sydd wedi cofrestru ar y rhaglen nyrsio Cyn-gofrestru - BN (Anrh) Nyrsio Oedolion, BN (Anrh) Nyrsio Plant neu BN (Anrh) Nyrsio Iechyd Meddwl sydd wedi arddangos cyfraniad rhagorol i brofiad dysgu myfyrwyr eraill yn eu carfanau | Tystysgrif gwobr y Brifysgol<br><br>Taleb £25 |

| Enw'r Wobr | Yn cael ei dyfarnu i:- | Gwobr: |
|---|---|---|
| | perthnasol neu ymdrech ragorol yn goresgyn anawsterau personol i gyflawni ei wobr/gwobr. | |
| **Gwobr Goffa Myfyriwr Seicoleg y Flwyddyn yr Athro Alex Carson** | Dyfarnir y wobr i fyfyriwr israddedig (lefel 3 - 6) sydd wedi cofrestru ar y rhaglenni BSc (Anrhydedd) Seicoleg (yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen) (o unrhyw flwyddyn astudio) sydd wedi dangos ymrwymiad rhagorol i oresgyn anawsterau personol i gyflawni llwyddiant yn ei (h)astudiaethau. | Tystysgrif gwobr y Brifysgol<br><br>Taleb £25 |
| **Gwobr Richard J Smith am Ôl-gynhyrchu sain** | I fyfyriwr y flwyddyn olaf ar unrhyw un o'r rhaglenni a restrir isod sydd wedi cyflawni'r marc cyffredinol uchaf yn y Modiwl CMT618 Cerddoriaeth a Dylunio Sain ar gyfer Ffilm.<br>• BA (Anrh) Cynhyrchiad Cyfryngau<br>• BA (Anrh) Cynhyrchiad Cyfryngau (Yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen)<br>• BSc (Anrh) Technoleg Cerddoriaeth a Sain<br>• BSc (Anrh) Technoleg Cerddoriaeth a Sain (Yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen) | Taleb Amazon £50<br>Tystysgrif gwobr y Brifysgol |
| **Gwobr Israddedig Blwyddyn Olaf y Gymdeithas Awyrennol Frenhinol** | I'r myfyriwr blwyddyn olaf sydd wedi arddangos y cyrhaeddiad mwyaf rhagorol yn y flwyddyn academaidd honno ac yn astudio un o'r rhaglenni gradd Anrhydedd canlynol wedi'u hachredu gan yr RAeS o fewn Peirianneg:<br>• BEng (Anrh) Peirianneg Awyrennol a Mecanyddol<br>• BEng (Anrh) Peirianneg Awyrenegol | Tystysgrif RAes, gwobr ariannol o £100<br><br>Tystysgrif gwobr y Brifysgol |
| **Gwobr Cyflawniad Academaidd Cymdeithas Fioleg Frenhinol** | Dyfernir y wobr hon yn flynyddol i fyfyrwyr sy'n graddio (lefel 6) ar un o'r rhaglenni canlynol sy'n graddio gyda'r marc cyffredinol uchaf.<br>• BSc (Anrh) Gwyddor a Rheoli Lles Ceffylau (gan gynnwys Blwyddyn Sylfaen)<br>• BSc (Anrh) Gwyddor Ymddygiad, Llesiant a Chadwraeth Anifeiliaid (gan gynnwys Blwyddyn Sylfaen)<br>• FdSc Ymddygiad, Hyfforddiant a Pherfformiad Cŵn<br>• FdSc Rheoli Bywyd Gwyllt yn Ymarferol | Aelodaeth gyswllt am ddim am flwyddyn i Gymdeithas Fioleg Frenhinol<br><br>Tystysgrif gwobr y Brifysgol |
| **Gwobr Goffa Sally O'Garra** | Dyfernir y wobr hon i fyfyriwr blwyddyn olaf (lefel 6 neu lefel 7) sy'n graddio o un o'r rhaglenni Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (SCPHN) a restrir isod, am ysbrydoli eraill yn y gweithle, arddangos arloesi mewn ymarfer, arddangos y gallu i oresgyn anawsterau yn ystod y rhaglen, i gyflawni eu llwyddiannau a/neu ysbrydoli myfyrwyr eraill neu fod yn gefn i ddysgwyr eraill.<br>• Diploma Graddedig Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (Ymwelydd Iechyd)<br>• Diploma Graddedig Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (Nyrsio Ysgol)<br>• Diploma ôl-raddedig mewn Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (Ymweliadau Iechyd)<br>• Diploma Ôl-raddedig mewn Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (Nyrsio mewn Ysgolion)<br>• Tystysgrif Ôl-raddedig Astudiaethau Iechyd Cymunedol<br>• MSc Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol | Tlws<br><br>Tystysgrif gwobr y Brifysgol |
| **Gwobr Traethawd Ymchwil Shergill** | Dyfernir y wobr yn flynyddol i'r myfyriwr Lefel 7 sydd wedi cyflawni'r marc uchaf yn y modiwl SCI721 - Mhres Traethawd Ymchwil ymhlith yr holl fyfyrwyr sy'n graddio yn y flwyddyn honno o'r rhaglenni isod:<br>• Mhres Ymchwil Clinigol Cymhwysol<br>• Mhres Ymchwil Gwyddorau Biofeddygol Cymhwysol | Siec am £100<br><br>Tystysgrif gwobr y Brifysgol |

| Enw’r Wobr | Yn cael ei dyfarnu i:- | Gwobr: |
|---|---|---|
| **Gwobr MSc Seicoleg Stephen Louden** | Dyfarnir y wobr hon i'r myfyriwr Meistr sy'n graddio gyda'r marc traethawd ymchwil cyffredinol uchaf (sy’n gorfod cyflawni 70% neu uwch i fod yn gymwys) o'r rhaglen MSc Seicoleg (Cyfnewid). | Siec am £1,000<br><br>Tystysgrif gwobr y Brifysgol |
| **Gwobr Turing am y myfyriwr cyffredinol gorau** | Dyfernir y wobr yn flynyddol i fyfyriwr lefel 6 sydd wedi cael ei enwebu ac wedi ymrestru ar un o’r rhaglenni astudio canlynol;<br>• BSc (Anrh) Datblygu Gêm Cyfrifiadur (yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen)<br>• BSc (Anrh) Cyfrifiadura (gyda Lleoliad Diwydiannol)<br>• BSc (Anrh) Cyfrifiadura [Prentisiaeth Gradd] (yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen)<br>• BSc (Anrh) Cyfrifiadura (Atodol)<br>• BSc (Anrh) Cyfrifiadureg (yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen)<br>• BSc (Anrh) Cyfrifiadureg (gyda Lleoliad Diwydiannol)<br>• BSc (Anrh) Cyfrifiadureg (Atodol)<br>• BSc (Anrh) Rhwydweithiau a Diogelwch Cyfrifiaduron (yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen)<br>• BSc (Anrh) Rhwydweithiau a Diogelwch Cyfrifiaduron (gyda Lleoliad Diwydiannol)<br>• BSc (Anrh) Seiberddiogelwch (yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen)<br>• BSc (Anrh) Seiberddiogelwch (gyda Lleoliad Diwydiannol)<br>• BSc (Anrh) Seiberddiogelwch [Prentisiaeth Gradd] (yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen)<br>• BSc (Anrh) Seiberddiogelwch<br><br>Dyfernir y wobr yn defnyddio meini prawf yn seiliedig ar farciau; y marc cyffredinol uchaf ar lefel 6 ar y rhaglenni cymwys, uchod. | Taleb Amazon £50<br><br>Tystysgrif gwobr y Brifysgol |
| **Gwobr Prosiect Ymchwil Blwyddyn Olaf Cangen Cymru o Gymdeithas Seicoleg Prydain** | Dyfernir y wobr yma i fyfyriwr lefel 6 sydd wedi ymrestru ar y rhaglen BSc Seicoleg (yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen) ac wedi cyflawni’r perfformiad cyffredinol gorau ym modiwl y traethawd estynedig ar gyfer y flwyddyn honno. | Siec gwerth £100<br><br>Tystysgrif gwobr y Brifysgol. |
| **Gwobr Wheeler ar gyfer Llesiant, Arweinyddiaeth a Dysgu** | Dyfarnir y wobr hon i fyfyriwr Lefel 7 o un o’r rhaglenni Iechyd a Llesiant cymwys sydd wedi dangos dealltwriaeth fyfyriol a dofn o lesiant drwy gydol ei astudiaethau academaidd ac arfer proffesiynol. Bydd yn dangos arweinyddiaeth ar gyfer llesiant drwy ei ymrwymiad i arfer moesegol a thosturiol, twf personol, ac yn hyrwyddo llesiant ei hun, eraill a’r gymuned yn ehangach.<br><br>Dyfarnir y wobr hon i fyfyriwr Lefel 7 ar un o’r rhaglenni cymwys a restrir isod:<br>• MSc Arweinyddiaeth ar gyfer Llesiant<br>• Diploma Ôl-radd Arweinyddiaeth ar gyfer Llesiant<br>• MSc Iechyd Cyhoeddus, Iechyd Meddwl a Llesiant<br>• Diploma Ôl-radd Iechyd Cyhoeddus, Iechyd Meddwl a Llesiant | Taleb llyfrau gwerth £30 a thystysgrif gwobr y Brifysgol. |
| **Gwobr Ysgol Fusnes Wrecsam ar gyfer** | Dyfarnir y wobr hon i fyfyriwr o un o’r rhaglenni Busnes cymwys sydd wedi dangos gwaith tîm ac ymarfer cydweithredol rhagorol, gan gyfrannu’n ystyrlon i brosiectau grŵp, partneriaethau a dysgu gan gymheiriaid. Bydd wedi dangos arweinyddiaeth, cyfathrebu a sgiliau rhyngbersonol cryf, gan | Taleb gwerth £50 a thystysgrif gwobr y Brifysgol. |

| Enw’r Wobr | Yn cael ei dyfarnu i:- | Gwobr: |
|---|---|---|
| **Cydweithio ac Effaith** | gefnogi cyd-fyfyrwyr i lwyddo a ffynnu, wrth ymgorffori proffesiynoldeb, cynwysoldeb ac ymrwymiad ym mhob gweithgaredd cydweithredol. Bydd ei gyfraniadau wedi cael effaith mesuradwy ar fentrau academaidd, proffesiynol neu gymunedol. | |
| **Gwobr Ysgol Fusnes Wrecsam ar gyfer Menter ac Arloesedd** | Dyfarnir y wobr hon i fyfyriwr ar un o’r rhaglenni Busnes cymwys sydd wedi dangos meddwl creadigol ac arloesol wrth ddatblygu a gweithredu syniadau, datrysiadau neu fentrau gwreiddiol. Bydd wedi dangos meddylfryd entrepreneuraidd, gan gymhwyso arloesedd yn effeithiol o fewn cynnwys academaidd, proffesiynol neu all-gwricwlaidd, wrth ddangos menter, arweinyddiaeth a galluoedd cryf i ddatrys problemau. Bydd ei waith wedi dangos potensial clir ar gyfer effaith gynaliadwy a gwerth ehangach.<br><br>Dyfarnir y wobr hon i fyfyriwr sy’n astudio ar Lefel 3, 4, 5, 6 neu 7 o un o’r rhaglenni cymwys a restrir isod:<br><br>Rhaglenni Lefel Israddedig<br><br>• Gradd Sylfaen Busnes Cymhwysol a Rheoli<br>• BA (Anrh) Cyfrifeg a Rheoli Cyllid (gyda Blwyddyn Sylfaen, Blwyddyn Sylfaen Ryngwladol neu Leoliad Diwydiant)<br>• BA (Anrh) Busnes Cymhwysol a Rheoli Atodol<br>• BA (Anrh) Rheoli Busnes ac Adnoddau Dynol (gyda Lleoliad Diwydiant)<br>• BA (Anrh) Busnes a Rheoli (gyda Blwyddyn Sylfaen, Blwyddyn Sylfaen Ryngwladol neu Leoliad Diwydiant)<br>• BA (Anrh) Busnes Rhyngwladol (gyda Lleoliad Diwydiant)<br>• BA (Anrh) Twristiaeth Ryngwladol a Rheoli Lletygarwch (gyda Lleoliad Diwydiant)<br>• BA (Anrh) Marchnata a Busnes (gyda Lleoliad Diwydiant)<br><br>Rhaglenni Lefel Ôl-raddedig<br><br>• MSc Rheoli Busnes Rhyngwladol a Dadansoddeg Data (Gydag Ymarfer Uwch)<br>• MSc Rheoli Busnes Rhyngwladol (Gydag Ymarfer Uwch)<br>• MSc Rheoli Gwasanaethau Iechyd Rhyngwladol (Gydag Ymarfer Uwch)<br>• MBA (yn cynnwys gydag Ymarfer Uwch)<br>• MBA (Atodol)<br>• MBA Dadansoddeg Data Mawr<br>• MBA Entrepreneuriaeth (yn cynnwys gydag Ymarfer Uwch)<br>• MBA Entrepreneuriaeth Atodol<br>• MBA Cyllid (yn cynnwys gydag Ymarfer Uwch)<br>• MBA Cyllid Atodol<br>• MBA Rheoli Iechyd (yn cynnwys gydag Ymarfer Uwch)<br>• MBA Rheoli Gofal Iechyd Atodol<br>• MBA Rheoli Lletygarwch a Thwristiaeth<br>• MBA Rheoli Adnoddau Dynol (yn cynnwys gydag Ymarfer Uwch)<br>• MBA Rheoli Adnoddau Dynol Atodol<br>• MBA Marchnata (yn cynnwys gydag Ymarfer Uwch)<br>• MBA Marchnata Atodol<br>• MBA Rheoli Prosiect (yn cynnwys gydag Ymarfer Uwch) | Taleb gwerth £50 a thystysgrif gwobr y Brifysgol. |

| Enw'r Wobr | Yn cael ei dyfarnu i:- | Gwobr: |
|---|---|---|
| | • MBA Rheoli Prosiect Atodol | |
| **Gwobr Ysgol Fusnes Wrecsam ar gyfer Datblygaid a Thwf Persono** | Dyfarnir y wobr hon i fyfyriwr o un o'r rhaglenni Busnes cymwys sydd wedi dangos twf sylweddol mewn ymgysylltiad academaidd, perfformiad a hyder drwy gydol ei astudiaethau. Bydd wedi dangos gwytnwch wrth oresgyn heriau, cymhwyso adborth gweithredol i lywio dysgu, ac wedi ymrwymo i hunan-ddatblygiad a gwelliant parhaus. Drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau academaidd, all-gwricwlaidd a phroffesiynol, bydd wedi cyfrannu at amgylchedd dysgu cadarnhaol a chefnogol, meithrin cydweithrediad ac anogaeth ymysg cymheiriaid. | Taleb gwerth £50 a thystysgrif gwobr y Brifysgol. |

Noder bod y gwobrau hyn yn gywir ar adeg cyhoeddi a'u bod yn gallu newid.